Cofnodion Cyfarfod 10fed o Ragfyr 2013 a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa, Y Felinheli am 7 yn yr hwyr.

YN BRESENNOL

Ken Brown
Lena Ashley
Sarah Riley
Daniel Williams
Wynne Barton Swyddog Ariannol
Iestyn Harris
George Smith
Sian Gwenllian

1.0 SYLWADAU AGORIADOL AC ADRODDIAD Y CADEIRYDD

1.1 Croesawyd yr aelodau i gyfarfod mis Rhagfyr y Cyngor. Dywedodd y Cadeirydd bod llythyr wedi ei dderbyn oddi wrth Gwyneth Williams yn datgan diddordeb o fod yn Cynghorydd Cyngor Cymunedol a llenwi'r sedd wag sydd ar y Cyngor

1.2 Etholwyd Gwyneth Williams fel Cynghorydd Cyngor Cymuned yn unfrydol.

Ymddiheuriadau Bethan Jones, Louise Hughes, Hywel V Jones a Pat Jones

2.0 DATGAN DIDDORDEB

2.1 Cyflwynwyd ffurflen hysbysiad o fuddiant personol yr aelodau ar gyfer eitem 5.0. ac eitem 9.2 gan Sarah Riley.

3.0 COFNODION

3.1 Cyflwynwyd Cofnodion 12fed o Dachwedd 2013.

Cynigwyd ac eiliwyd bod y cofnodion yn gywir ac arwyddwyd y cofnodion.

4.0 MATERION YN CODI

4.1 **Golau Stryd Cerrig yr Afon** - Adroddodd y Clerc y diweddara ar y mater hwn a chadarnhau bod Cerrig yr Afon yn barod i gyfrannu £1000 gyda'r Cyngor yn cyfrannu'r gweddill; hefyd roedd wedi cael cadarnhad gan Cerrig yr Afon mai'r safle bws ochr y cartref oeddynt yn dymuno gweld y golau gan mai yma mae rhan fwyaf o bobl, ymwelwyr a gweithwyr yn aros am y bws. Dywedodd bod angen i'r Cyngor bellach benderfynu os yw am symud ymlaen a rhoi archeb am y golau a chwblhau'r gwaith sefydlu.

Penderfynodd y Cyngor i symud ymlaen a'r mater a bod y Clerc yn anfon yn swyddogol at Adran Goleuadau Stryd i'r gwaith gael ei wneud.

4.2 **Cerdded a Darganfod** - Nid oes unrhyw wybodaeth bellach wedi ei dderbyn ynglŷn â'r cynllun hwn.

Y Clerc i gysylltu â Gareth Roberts.

4.3 **Llwybr Rowen** - Cyflwynodd y Clerc adroddiad gan Adran Llwybrau Cyngor Gwynedd yn datgan nad oeddynt yn barod i fabwysiadu rhan o lwybr. Nid oedd cynsail o fabwysiadu rhan o lwybyr. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â chael y manylion adeiladu'r llwybr i safon oddi wrth yr Adran er mwyn gwneud ymholiadau am brisiau eraill heblaw oddi wrth y Cyngor.

5.0 ADRODDIAD PWYLLGOR RHEOLI'R NEUADD

5.1 Cyflwynodd Cadeirydd y Cyngor nad oedd paentio'r neuadd wedi cymryd lle hyd yma oherwydd nid oedd brys i'w cwblhau wedi'r cyfan gan fod yr Ysgol wedi cyflwyno eu sioe/gwasanaeth yn yr Eglwys. Bydd y paentio yn cymryd lle nes ymlaen.

Y Clerc i anfon llythyr at Mrs Non Hughes i longyfarch yr ysgol ar yr achlysur.

5.2 Mae trefniadau mewn llaw i'r pensaer a'r trydanwr i ymweld â'r neuadd i ymdrin â'r mater diogelwch tân

6.0 CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL.

6.1 Cadarnhawyd gwariant mis Tachwedd.

6.2 Trafodwyd sut y byddai cyrff a mudiadau'r pentref yn gallu cael gwybodaeth ynglŷn â derbyn cymorth ariannol oddi wrth y Cyngor Cymuned a hefyd i anfon cais mewn pryd. Penderfynwyd bod neges yn cael ei rhoi ar Facebook, yn y papur lleol ac yn y siop leol.

7.0 GOHEBIAETH

7.1 Tesni Haf Job, Tŷ Ni, Pendorlan, Y Felinheli - Goleuadau /Coeden Nadolig - cafwyd trafodaeth ynglŷn â chyflwyno goleuadau ar y cloc a phenderfynwyd nad oedd hyn yn addas, er hynny penderfynwyd symud ymlaen i drio codi coeden o oleuadau fel sydd yn ymddangos ar y traeth.

Cynghorydd Daniel Williams i wneud ymholiadau a swyddogion Gŵyl y Felin ac os bydd y costau tua £300 yna i ymgynghori a Cadeirydd y Cyngor er mwyn gwneud y penderfyniad cyn symud ymlaen. Y Clerc i wneud ymholiadau a Swyddogion Goleuadau Nadolig Llanberis.

7.2 Gwasanaeth Cyfreithiol Cyngor Gwynedd - Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Y Felinheli, Llanberis, Cwm y Glo, Llanwnda a Groeslon) cyfyngiad Cyflymder 20, 30 a 40 m.y.a. a digyfyngiad)
2013.

7.3 Loteri Cenedlaethol – Prosiectau Ryfel Byd - pasiwyd y wybodaeth i'r Cynghorydd Daniel Williams.

7.4 Gwasanaethau Cyfreithiol – Bwriad Cyngor Gwynedd i greu llwybr cyhoeddus dros eiddo Glan y Môr Lodge.

8.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR COFEB Y CLOC

8.1 Dim i'w adrodd.

9.0 CEISIADAU CYNLLUNIO

9.1 **C13/1112/20/HY** - Cais Rhannol ol-weithredol ar gyfer cadw arwydd - NWS Dock Management Ltd., Port Dinorwig Marina, Y Felinheli, Gwynedd LL56 4JN - **Gwrthwynebu** - ar sail ei fod yn uniaiwth Saesneg o faint gormodol , hefyd nid yw yn gweddu i gymeriad yr ardal. Os bydd hawl yn cael ei roi yna dylai amod fod yn rhan o hwnnw i sicrhau dwyieithrwydd.

9.2 **C13/1205/20/LL** -Cais llawn i godi 6 tnewydd i gynnwys 4 tŷ deulawr 2 llofft ac d dŷ unllawr 2 lloft, creu mynedfa a ffordd gerbydol a thirlunio - tir ger Y Wern, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4TZ - **Dim Gwrthwynebiad,** ond angen anfon sylwadau bod cyfle wedi ei golli i gyflwyno ffaltiau ar gyfer yr henoed**.**

9.3 **Cynllun Datblygu Lleol** - Seminar Safleoedd Posib ar gyfer Tai. Cyflwynodd y Cynghorydd Sian Gwenllian adroddiad yn dilyn y seminar a dywedodd bod dynodiad category y pentref yn golygu na fydd unrhyw ymestyn ar y ffin sydd yn cyd-fynd a barn y Cyngor Gwynedd.

10.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR Y FYNWENT

10.1 Dim i'w adrodd ond bod rheolau a thelerau'r fynwent wedi eu dyblygu o'r newydd ar gyfer eu codi yn y fynwent.

11.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR MAES PARCIO, LON LAS A SAFLE MORIAH

11.1 Problemau fandaliaeth yn bodoli yn y maes parcio ond dim yw adrodd ar y Lon Las na Safle Moriah.

12.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR LLWYBRAU, CYSGODFANNAU A MEINCIAU

12.1 Mae mainc bellach wedi ei gosod yn y cysgodfan bws ger yr Eglwys.

12.2 Dim i'w adrodd ar faterion llwybrau'r pentref.

13.0 CYNGHORODD SIR

13.1 Ger y Nant - materion diogelwch y ffyrdd. Mae Watkin Jones wedi ymrwymo i gyflwyno mesuriadau diogelwch y ffyrdd gan gynnwys, cysgodfan bws, stribedi coch a symud cyfyngiad 30 m.y.a. ar ffordd Bethel. Mae Gareth Roberts yn trafod y manylion a Watkin Jones.

13.2 Mae angen hefyd i wella ymylon ffordd tuag at Fethel ar ôl y gwaith yn Ger y Nant. Y Clerc i gysylltu â Meirion Williams Peiriannydd Ardal Arfon.

13.3 Cynllun Cymraeg - menter Iaith Gwynedd yn rhoi help ariannol i godi hyder defnydd o'r Iaith Gymraeg gan bobl ifanc Cymraeg. Mae grŵp wedi ei lunio i wneud cynllun gwaith i godi sgiliau dwyieithrwydd fel cadeirio a.y.b. mae'r grŵp ar hyn o bryd yn gweithio tuag at drefnu gig.

14.0 UNRHYW FATER ARALL

Dim - Dymunodd y Cadeirydd Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 9:00 yn yr hwyr.

Llofnod: ..... Dyddiad:.....